**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwella Gwasanaethau a Chyllid

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 6 Rhagfyr 2022 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
| --- | --- | --- |
| P M Black | R Fogarty | P R Hood-Williams |
| D H Jenkins | M Jones | J W Jones |
| M W Locke | B J Rowlands | |

**Swyddog(ion)**

| | |
| --- | --- |
| Y Cynghorydd Elliot King | Aelod y Cabinet dros Gydraddoldeb a Diwylliant |
| Y Cynghorydd Cyril Anderson | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymunedol |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid a'r Swyddog Adran 151 |
| Richard Rowlands | Rheolwr Perfformiad Corfforaethol |
| Matthew Perkins | Arweinydd Grŵp, Gwastraff |
| Rhian Millar | Cydlynydd Ymgynghori |
| Rachel Percival | Scrutiny Officer |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Dim

---

26 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Nid oedd unrhyw ddatgeliadau o fuddiannau Personol a rhagfarnol.

27 **Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Dim

28 **Cofnodion**

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

29 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

## 30 Datganiad Cyllideb Canol Blwyddyn 2022/23 (Llafar)

Roedd Ben Smith, Cyfarwyddwr Cyllid a Swyddog Adran 151, yn bresennol i roi trosolwg o Ddatganiad Cyllideb Canol Tymor 2022/23. Trafododd y canlynol:

- Cyhoeddodd Dadansoddiad Cyllidol Cymru eu hasesiad o symiau canlyniadol Barnett sy'n dangos bod tua £600m ar gael ond mae'n debygol y bydd canran fawr o hyn yn mynd tuag at leihau ardrethi busnes i fusnesau.
- Bydd y £600m yn cael ei gyflwyno dros ddwy flynedd, ond caiff y rhan fwyaf ei gyflwyno yn 2023/24.
- Y meysydd gwariant mwyaf nesaf ar gyfer symiau canlyniadol Barnett, ar ôl ardrethi busnes, yw'r gwasanaeth iechyd, ysgolion a gofal cymdeithasol.
- Nid oes unrhyw rwymedigaeth ar Lywodraeth Cymru i ddilyn y dyraniadau a awgrymir gan symiau canlyniadol Barnett. Bydd y gyllideb ar 13 Rhagfyr a'r setliad llywodraeth leol ar 14 Rhagfyr yn cadarnhau'r holl ddyraniadau.
- Mae'n bosib y bydd rhagolygon gwell yn y tymor byr ond mae'r tymor hwy yn dal i fod yn anodd ei ragweld ond mae'n debygol o barhau i fod yn heriol iawn.
- Gyda byrddau'r GIG yn gweithredu mewn diffyg, a gan nad oes ganddynt gronfeydd wrth gefn yn wahanol i lywodraeth leol, mae'n debygol y bydd cyfran sylweddol o'r arian yma'n mynd i'r adran iechyd. Byddai unrhyw arian sy'n mynd i ofal cymdeithasol yn cael effaith gynyddol o ran helpu i liniaru'r pwysau ar y byrddau iechyd a'r gwasanaeth ambiwlans.
- Mae gwariant o gronfeydd arian parod wrth gefn yn y flwyddyn gyfredol (2022-2023) yn debygol o fod tua £40m, sef tua £20m o'r Gronfa Adferiad Economaidd, £10m i dalu am y dyfarniadau cyflog heb eu hariannu ac o bosib tua £10 miliwn o gronfeydd wrth gefn ysgolion wedi'u clustnodi i dalu am eu dyfarniad cyflog.
- Y bwriad yw defnyddio hyd at £15m o'r Gronfa Adferiad Economaidd i'w wario ar gostau ynni canolog er mwyn atal gwasanaethau unigol neu ysgolion unigol rhag gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â staffio sydd wedi'u hysgogi gan gynnydd mewn prisiau ynni yn unig. Mae hyn yn unol â chyhoeddiadau dangosol cynharach gan Arweinydd a Swyddog A151 y cyngor.
- Bydd angen i gynghorwyr ystyried cydbwyso'r angen i godi treth y cyngor er mwyn cynnal a diogelu gwasanaethau â materion fforddiadwyedd a chostau byw ar gyfer preswylwyr a threthdalwyr. Byddai cyfnewidiadau clir yn y dewisiadau sydd i ddod i'r cyngor ym mis Mawrth i osod cyllideb gytbwys yn gyfreithlon.

## 31 Adroddiad Monitro Perfformiad Chwarter 1 2022/23

Cyflwynodd Richard Rowlands, Rheolwr Perfformiad Corfforaethol, yr adroddiad. Nodwyd y materion canlynol:

- Mae Chwarter 1 yn parhau i arddangos effeithiau'r pandemig.
- Bydd adolygiad pellach o'r dangosyddion perfformiad yn cael ei gynnal ochr yn ochr â datblygu'r cynllun corfforaethol newydd. Bydd y rheini'n cael eu hadrodd o Chwarter 1 y flwyddyn nesaf.
- O'r 23 o ddangosyddion cymaradwy yn yr adroddiad, dangosir bod 5 yn gwella neu'n cynnal tueddiadau. O'r rheini a oedd wedi gostwng, roedd 6 o ganlyniad i'r pandemig ac roedd 9 nad oeddent o ganlyniad i'r pandemig, roedd y 3 dirywiad a oedd yn weddill yn fach iawn ac o fewn 5% i'r canlyniad blaenorol.

- Mae 18 o ddangosyddion newydd heb unrhyw gymariaethau oherwydd nad oedd unrhyw ddata blaenorol ac roedd 5 dangosydd nad oedd modd eu cymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol gan nad oedd y data wedi'i gasglu oherwydd y pandemig.
- Parhaodd perfformiad diogelu yn dda yn Chwarter 1, gyda llai o blant a theuluoedd yn mynd ymlaen i wasanaethau statudol.
- Yn Chwarter 1 mae addysg yn parhau i gael ei heffeithio gan y tarfu sylweddol a achoswyd gan y pandemig, er enghraifft o ran cymharu canlyniadau arholiadau â graddau a aseswyd gan athrawon.
- Mae dangosyddion ar ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig yn canolbwyntio ar nifer y datganiadau a gyhoeddwyd ond nid pa mor effeithiol yw'r datganiadau.
- Bu cynnydd mewn amseroedd prosesu ar gyfer timau treth y cyngor a budd-daliadau tai, sy'n bennaf o ganlyniad i staff yn cael eu dargyfeirio i waith ychwanegol o brosesu grantiau COVID-19 a grantiau eraill Llywodraeth Cymru.
- Mae COVID-19 yn parhau i effeithio ar lefelau salwch staff.
- Mae gostyngiad yn nifer y taliadau ar-lein a'r ffurflenni a wnaed trwy wefan y cyngor.
- Bydd dangosyddion pellach yn cael eu hychwanegu at faes Adferiad Natur a Newid yn yr Hinsawdd.
- Bydd dangosyddion gwasanaethau cymdeithasol newydd yn cael eu hychwanegu yn yr ail chwarter.

32 **Ailgylchu a Thirlenwi - Adroddiad Monitro Perfformiad Blynyddol 2021/2022 a Briffio Ailgylchu Gwastraff Busnes**

Roedd y Cynghorydd Cyril Anderson, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymunedol a Matthew Perkins, Arweinydd Grŵp Gwastraff yn bresennol i gyflwyno'r sesiwn friffio hon. Nodwyd y materion canlynol:

- Targedau presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer ailgylchu yw 64% a'r llynedd fe lwyddodd Cyngor Abertawe i gyrraedd 65.07%, cynnydd bach o'i gymharu â 2021.
- Bydd ailgylchu gorfodol ar gyfer pob adeilad annomestig yn cael ei orfodi gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol agos. Mae cynlluniau dychwelyd ernes hefyd ar y gweill ond nid yw effaith y rhain ar y cyngor yn hysbys.
- Mae rhoi'r Strategaeth Gwastraff ar waith wedi golygu bod ffigyrau ailgylchu wedi neidio o 65% i fwy na 70%, sydd yn bennaf oherwydd y drefn a ddechreuodd ym mis Chwefror 2022, sef anfon gwastraff i ganolfannau troi gwastraff yn ynni yn hytrach na defnyddio safleoedd tirlenwi.
- Bydd Cyngor Abertawe'n bodloni holl dargedau presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer ailgylchu.
- Mae tri chwarter y gwastraff sachau du a gynhyrchir yn cael ei anfon i gyfleuster troi gwastraff yn ynni yn Bedford oherwydd ni allai unrhyw ffatri agosach letya gwastraff Abertawe. Mae'r chwarter arall yn cael ei rannu'n lleol i ddechrau ac yna'n cael ei anfon i Sgandinafia.

- Dyblodd gwastraff cardbord yn ystod y pandemig ond mae wedi gostwng yn ôl i ddefnydd cyn y pandemig. Mae gwastraff plastig yn dal i fod yn sefydlog.
- Dim ond mewn nifer cyfyngedig o ganolfannau ailgylchu y mae'r gwasanaeth ailgylchu coed ar gael. Mae hyn oherwydd y lle sydd ei angen i ddidoli pren yn ôl pren peryglus a di-beryglus.

## 33 Adroddiad Archwilio Cymru - "Gwneud Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn fwy nag ymarfer ticio bocsys yn unig"

Roedd y Cynghorydd Elliot King, Aelod y Cabinet dros Ddiwylliant a Chydraddoldeb, a Rhian Millar, Cydlynydd Ymgynghori yn bresennol i drafod yr adroddiad hwn. Nodwyd y canlynol:

- Mae Asesiadau Effaith Cydraddoldeb (AEC) wedi bod ar waith ers 2010, gyda Chyngor Abertawe'n eu rhoi ar waith ers 2012.
- Y llynedd cafodd y broses ei hadolygu'n fewnol lle newidiwyd AEC i ddull asesu mwy integredig (AEI) sy'n dod â'r dyletswyddau gwahanol i un lle i sicrhau bod y cyngor yn asesu'r effaith yn iawn ac yn gyffredinol fel rhan o un broses gydlynol.
- Mae swyddogion yn cydnabod bod yna feysydd yr oedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi tynnu sylw atynt i'w gwella ond mae problemau tebyg ar draws awdurdodau eraill yn enwedig o ran adnoddau.
- Mae canlyniadau adrodd a monitro yn nwylo'r swyddog sy'n gyfrifol am yr adroddiad/polisi.
- Ar hyn o bryd mae pob adroddiad cyhoeddus yn destun broses sgrinio AEI, hyd yn oed y rheini er gwybodaeth yn unig. Fodd bynnag mae hyn yn cael ei adolygu'n fewnol.
- Byddai'r broses AEI yn elwa o ganllawiau cliriach ar draws y sector cyhoeddus.
- Mae'r Strategaeth Cynnwys Cwsmeriaid yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd. Yna bydd Dangosyddion Perfformiad ar gyfer y strategaeth hon yn cael eu trafod gyda'r bwriad o beidio â chanolbwyntio ar niferoedd ond monitro effaith a myfyrio ar yr holl nodweddion gwarchodedig.

## 34 Llythyrau

Ni wnaed unrhyw sylwadau yn y llythyrau atodedig i Aelodau'r Cabinet.

## 35 Cynllun Gwaith

Ni wnaed sylwadau ar y Cynllun Gwaith.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45 am

**Cadeirydd**